

---

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**  
**13-10-09**

---

**Yn Bresennol:** Y Cynghorwyr Robert J. Wright, Sion Selwyn Roberts, (Cyngor Gwynedd), Michael Sol Owen, (Cyngor Tref Pwllheli), David Dewsbury a G. Williams, (Cymdeithas Cychod Hafan), Michael Parry, (Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn), John Morris (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli), Stephen Tudor (Clwb Hwyllo Pwllheli), David Hughes, (Siambwr Fasnach Pwllheli), Dr.J..L. Jones Morris, (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog)

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Wil Williams, (Rheolwr Hafan Pwllheli), Dafydd Phillips, (Harbwr Feistr) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**1. CADEIRYDD**

Penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd Michael Parry yn Gadeirydd am y flwyddyn 2009/10. Diolchodd yr aelod am yr anrhydedd.

**2. IS-GADEIRYDD**

Yn ei absenoldeb, penderfynwyd ail ethol y Cynghorydd Peter Read yn Is-gadeirydd am y flwyddyn 2009/10.

**3. YMDDIHEURIADAU :** Y Cynghorydd Peter Read, Rod Green, (Cymdeithas Cychwyr Pwllheli a'r Cylch), Huw Davies, (Peiriannydd Grŵp), Neil Garton Jones, (Pen Beiriannydd Peirianneg a Rheolaeth Adeiladu) a Ken Fitzpatrick, (Swyddog Morwrol Harbyrau).

**4. YMDDISWYDDIAD**

Nodwyd fod Mr Rod Green wedi penderfynu ymddiswyddo fel cynrychiolydd Cymdeithas Cychwyr Pwllheli a'r Cylch ar y Pwyllgor hwn. Mynegwyd cydymdeimlad â Mr Green yn ei brofedigaeth ddiweddar a chyfeiriodd y Cadeirydd at waith cydwybodol Mr Green fel aelod o'r Pwyllgor hwn am gyfnod maith.

Cadarnhawyd mai Mr Richard Williams fydd yn cynrychioli Cymdeithas Cychwyr Pwllheli a'r Cylch yn y dyfodol.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2009, fel rhai cywir.

## 6. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cyfeiriwyd at gais a wnaed yng nghyfarfod mis Mawrth 2009 i gael cynrychiolydd o Adran y Trysorydd yn y cyfarfod hwn ar gyfer trafod cyllidebau. Adroddwyd gan y swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod wedi trafod manylion y gyllideb yn fanwl gyda'r Cyfrifydd. Er y mynegwyd anfodlonrwydd am nad oedd cynrychiolydd yn bresennol 'roedd y swyddog o'r farn na fyddai yna wybodaeth ychwanegol yn cael ei gyflwyno pe byddai cyfrifydd yn bresennol.

Pwysleisiodd y swyddog fod gwybodaeth lawn ar gael i'w chyflwyno i'r Pwyllgor.. 'Roedd hefyd yn annog aelodau i gysylltu â'r Uned ar unrhyw adeg pe byddent yn awyddus i drafod materion arbennig.

Nodwyd gan gynrychiolydd Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli ei fod wedi cael cyfle i drafod y cyllidebau hefo'r swyddog a bod y cyfarfod wedi bod yn hynod fuddiol. Diolchodd am y cymorth.

- ii) Cadarnhaodd y swyddog ei fod wedi cyflwyno barn yr aelodau parthed deddfwriaeth yn gysylltiedig ag yfed alcohol ar gychod pleser. Cyfeiriodd hefyd at beth o gynnwys deddfwriaeth arfaethedig yn nodi fod bwriad i gynnwys Badau Dŵr Personol a badau eraill oddi fewn i Ddeddfwriaeth Llongau Masnach.

Byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn sicrhau fod rhaid i Fadau Dŵr Personol gydymffurfio â rheolau 'ColRegs' ac is-ddeddfau harbyrau ble, ar hyn o bryd yn dilyn achos 'Regina y Goodwin, nid ydynt wedi eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth.

- iii) Yn sgil penderfyniad a wnaed i ddsbarthu copïau, ar ddisgiau cyfrifiadurol, o adroddiadau a ddarparwyd gan beirianwyr ymgynghorol mewn cysylltiad â charthu'r harbwr, nodwyd bod disgiau ar gael i'w dosbarthu yn y cyfarfod.

- iv) Cyfeiriwyd at y cwch sydd wedi ei adel ym mhen pellaf yr harbwr ger 'Partington Marine/ Pwllheli Seafoods. Pryderai'r Cadeirydd fod cyflwr y cwch yn gwaethygu ac yn creu ychwaneg o berygl.

Cadarnhaodd y swyddog fod yr Uned wedi cysylltu gyda pherchennog y cwch a'i fod wedi datgan y bwriad i roi'r cwch i berson arall ond nad oedd cadarnhad ysgrifenedig o hyn wedi ei dderbyn.

Ychwanegodd y swyddog fod y gwaith o ymdrin â'r cwch ar raglen waith yr harbwr i'w gwblhau cyn diwedd y flwyddyn. Adroddodd mai'r unig opsiwn fyddai chwalu a symud y cwch o'r safle. Cadarnhaodd fod asedau ar y cwch ac awgrymodd y gellid gwerthu'r rhain er mwyn lleihau costau'r Cyngor.

## 7. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig gyda sylw'n cael ei roi i wahanol faterion yn unigol:

### **Morwriaeth**

Adroddwyd fod swyddog o Dŷ'r Drindod wedi archwilio holl gymhorthion mordwyo harbwr Pwllheli ym mis Awst ac yna wedi cwblhau awdit cyfrifiadurol ym mis Medi. 'Roedd y swyddog yn hapus gyda'r sefyllfa er bod angen gwaith cynnal a chadw ar rai o'r cymhorthion.

Cadarnhaodd y Swyddog fod bwriad i raglennu'r gwaith yn ystod y misoedd nesaf a bod angen sicrhau fod y gwaith, a fu eisoes wedi ei raglennu ar gyfer misoedd y gaeaf 2008/09 yn cael ei gwblhau cyn y Nadolig eleni.

Cyfeiriodd y Swyddog at ymgyrch carthu yn ardal ceg yr harbwr a gwblhawyd yn ystod mis Mehefin 2009. 'Roedd y Swyddog yn falch o'r gwelliant a welwyd ac ategwyd hyn gan gynrychiolydd Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli. Er hyn, ychwanegodd yr aelod y byddai'n fanteisiol pe byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn gynharach yn y flwyddyn. Nodwyd gan gynrychiolydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli nad oedd y gwaith wedi lledu ceg yr harbwr.

Esboniodd y Swyddog ymhellach ei bod yn debygol y bydd angen ymdrin â'r gwaith carthu yng ngheg yr harbwr yn flynyddol ac y byddai'n rhaid neilltuo rhwng £20,000 a £25,000 ar gyfer hyn.

### **Rheolaeth Hafan/Harbwr**

Tynnodd y swyddog sylw at doriadau ariannol sy'n rhaid eu hwynebu gan nodi fod hanner cyllid swydd Harbwr Feistr Pwllheli eisoes wedi ei adnabod fel arbediad ariannol. Bydd cyllideb yn parhau ar gael er penodi Harbwr Feistr am chwe mis y flwyddyn a rhagwelir y bydd y cyfnod nesaf yn ymestyn rhwng 1 Ebrill, 2010 a 30 Medi, 2010.

Yn sgil y newidiadau, pwysleisiodd y swyddog y bydd angen cydweithio er sicrhau y caiff harbwr Pwllheli a'r Hafan eu gwasanaethu'n effeithiol.

Nodwyd fod dau swyddog a fu'n gyfrifol am ddiogelwch yr Hafan dros nos, (sef rhwng 19:00 a 07:00) wedi ymddiswyddo ar ôl cyfnod hir o wasanaeth i'r Cyngor. I ddygymod â'r newid, penodwyd cwmni diogelwch lleol i gynorthwyo gyda'r gwaith dros dro. Derbyniodd y swyddog, yn dilyn barn aelod, fod hwn yn enghraifft o brofiad gwerthfawr yn cael ei golli. Fodd bynnag, ychwanegodd fod hyfforddiant cychwynnol wedi ei ddarparu ac mai cytundeb dros dro a gafwyd hyd nes y gellir penderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu'r gwasanaeth.

### **Craen**

Adroddodd y swyddog at y gwaith sy'n mynd ymlaen parthed y bwriad i bwrcasu craen, (hoist) newydd ar gyfer gwasanaethu cwsmeriaid Harbwr Pwllheli.

Eglurwyd fod yr Uned, er cryn drafferth, wedi llwyddo i gael pwmp addas ar gyfer y craen presennol. Cafwyd y pwmp o'r Eidal ac mae'r craen yn gweithio'n foddhaol. Ychwanegodd y swyddog fod gwaith pellach i'w wneud cyn gallu prynu craen newydd ond bod disgwyl iddi fod yn ei lle ymhen blwyddyn.

### **Digwyddiadau**

Cyfeiriodd y swyddog at gydweithrediad holl pwysig a fu rhwng y Clwb Hwyllo a'r Uned a llongyfarchodd y Clwb ar llwyddiant y digwyddiadau niferus gydol yr haf. Nododd fod y llwyddiant yma o fudd i'r dref gyfan.

Diolchodd cynrychiolydd y Clwb Hwyllo i'r swyddog am y sylwadau ac ychwanegodd fod yna gydnabyddiaeth o bwysigrwydd y digwyddiadau i economi Pwllheli a'r ardal. Diolchodd y cynrychiolydd hefyd i Faer y dref am estyn croeso arbennig i'r cystadleuwyr yn y seremonïau agoriadol.

Ychwanegodd fod yna 11 o ddigwyddiadau wedi eu trefnu ar gyfer 2010 ar hyn o bryd a bod digwyddiadau pellach yn y dyddiadur am 2011 hyd at 2014.

Cyfeiriodd y cynrychiolydd at gyfarfod cadarnhaol a gynhaliwyd gyda Chyngor Tref Pwllheli, y Siambr Fasnach a Chyngor Gwynedd gyda'r bwriad o weithio ar y cyd i farchnata'r dref fel 'Calon Hwyllo Cymru.' 'Roedd o'r farn y byddai'r cyfarfodydd yma yn creu ffyrdd o rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau yn y dyfodol.

### **Ystadegau**

Adroddodd y swyddog yn llawn ar niferodd y cychod sydd wedi eu hangori yn yr Hafan a'r harbwr allanol.

'Roedd 151 o gychod ar angorfa yn yr harbwr allanol, sef cynnydd bychan mewn cymhariaeth â'r nifer yn 2008. Nodwyd fod 407 o gychod ar angorfa pontŵn yn yr Hafan, sef tri chwch yn llai na'r uchafswm. Golygai hyn fod yna angorfeydd yn rhydd ar gyfer cychod ymwelwyr.

Nododd y swyddog ei bod yn galonogol gweld 302 o gychod ar restr aros y marina ar waetha'r dirwasgiad. Yn unol â rheolau'r Cyngor mae pob unigolyn ar y rhestr aros wedi talu £50 er mwyn sicrhau bod y cais yn ddilys. Er hyn mynegwyd pryder gan rai aelodau oedd yn ansicr ynglŷn â chywirdeb y rhestr aros. Pryderai rhai bod llawer yn rhoi eu henwau ar y rhestr er nad oedd cynlluniau pendant ganddynt i gael cwch yn y marina neu am eu bod yn ystyried cael cwch fel cynllun hir dymor.

Pwysleisiodd y swyddog fod y rhestr aros yn bodoli gydag unigolion yn barod i dalu £50 am gael aros arni. 'Roedd o'r farn fod lle i ymfalchïo o safbwynt y llwyddiant ym Mhwllheli a oedd yn amlwg ar waetha'r dirwasgiad.

Wedi i'r aelodau ddod i benderfyniad nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned fod yr Hafan yn adnodd arbennig ac na ddylai unrhyw newid golygu ei bod yn cael ei hystyried fel hafan sy'n cosbi.

**PENDERFYNWYD:**

- i) Bod adolygiad llawn yn cael ei chynnal i sefyllfa'r rhestr aros**
- ii) Bod y gost o aros ar y rhestr aros yn cynyddu i £100 y flwyddyn**
- iii) Bod unrhyw un sy'n gwrthod cynnig i gael angorfa yn y marina yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr aros am ddwy flynedd.**

**Cyllidebau**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiadau ar gyllid terfynol Harbwr a Hafan Pwllheli am y flwyddyn ariannol 2008/09. Yn ogystal cyflwynwyd cyllideb gwariant a thargedau incwm yr holl harbyrau a thraethau am y flwyddyn 2009/10.

Pwysleisiodd yr angen i fod yn wylidwrus iawn er sicrhau na fydd y gwasanaeth yn ymrwymo arian tu hwnt i'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Yn sgil hyn, nodwyd fod rhaglen waith manwl yn cael ei darparu ar gyfer yr Hydref a'r Gaeaf er mwyn adnabod blaenoriaethau yn harbwr Pwllheli.

Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd fod tua £200,000 wedi ei neilltuo ar gyfer gwariant ar garthu'r harbwr.

**Cynyddu Ffioedd**

Bydd yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn adolygu'r ffioedd a thaliadau cyfredol ac yn cynnal ymchwil cyn argymhell unrhyw newidiadau ar gyfer harbyrau, marinas a thraethau am y flwyddyn ariannol.

Pwysleisiodd y swyddog y bydd angen ystyried pob argymhelliad a derbyn cadarnhad Swyddogion Statudol a'r Arweinydd Portffolio cyn y gellir cyhoeddi'r ffioedd newydd. Disgwylir y gellir rhoi gwybod i'r cwsmeriaid cyn y Nadolig.

'Roedd yn gobeithio'n fawr na fyddai ffioedd a thaliadau Hafan a Harbwr Allanol Pwllheli yn cynyddu mwy na chwyddiant yn y flwyddyn ariannol 2010/11. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i'r posibilrwydd o ostwng rhai ffioedd yn yr harbwr allanol gan fod dyfnder dŵr dan y cêl yn lleihau.

Cyfeiriodd aelod at gynnydd sylweddol yn nhaliadau trydan, a nododd y swyddog y byddai'r mater yn cael sylw er na ellid rhoi sicrwydd o newid.

**Carthu'r Harbwr**

Cyfeiriodd y swyddog at y gwaith a wnaed yn ddiweddar a'r hyn sydd angen ei wneud. Nododd fod carthu'r sianel mordwyo a basn yr Hafan yn waith hanfodol ac yr oedd yn disgwyl i'r gwaith gychwyn yn Ionawr/Chwefror 2010.

Croesawyd y wybodaeth ac yr oedd yr aelodau'n awyddus i wybodaeth lawn o'r gwaith a fwriedir ei wneud cael ei ryddhau.

Galwodd aelod am i'r domen a gasglwyd o ganlyniad i garthu'r harbwr gael ei defnyddio er lles manau ym Mhwllheli ac nid ei defnyddio ar unrhyw ran arall o arfordir Gwynedd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi sylwadau'r aelodau.**

**Cynllun Academi Hwyllo a Chanolfan Digwyddiadau Pwllheli**

Cafwyd cyflwyniad gan yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned yn rhoi gybodaeth am y gwaith a wnaed hyd yma a'r hyn sydd angen ei wneud parthed sefydlu Academi Hwyllo a Chanolfan Digwyddiadau ym Mhwllheli.

Cyfeiriodd y swyddog yn arbennig at y Weledigaeth ac Amcanion a luniwyd ar gyfer y cynllun. O fewn y Weledigaeth, nodir fel a ganlyn:

***Gweledigaeth y Cynllun yw creu Academi Hwyllo Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau fyddai'n uchafu'r potensial a gynigir i gael lleoliad naturiol a dyfroedd hwyllo arbennig sydd i'w canfod o amgylch Pwllheli.***

***Fel Canolfan Ragoriaeth ar gyfer hyfforddiant hwyllo, bydd yn cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer hwylwyr o bob safon a gallu. Yn ychwanegol i gynnal digwyddiadau dingis cenedlaethol a rhyngwladol, bydd y cyfleusterau'n darparu ar gyfer digwyddiadau cychod cilbren, regatas a gweithgareddau chwaraeon dŵr eraill.***

***Bydd y cyfleuster yn arddangos hunaniaeth arbennig drwy hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymraeg. Ymhellach, drwy gyfranogiad ar y cyd, bydd y cyfleuster yn gynaliadwy ac yn creu budd economaidd tymor hir i gymunedau lleol, busnesau, ysgolion a darparwyr hyfforddiant eraill.***

***Bydd y Ganolfan yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad Harbwr Pwllheli ac yn cydweddu gyda Hafan Pwllheli drwy ddarparu angorfeydd newydd a chyfleusterau ar y tir ar gyfer hwylwyr sy'n ymweld.***

Ymhelaethodd y swyddog ar y Weledigaeth a'r amrywiol amcanion. Fodd bynnag, pwysleisiodd mai cynigion cysyniad sydd wedi eu paratoi hyd yma sy'n golygu y bydd angen ymgymryd â gwaith rhagbaratoi a dylunio manwl.

Fel datblygiad pellach lluniwyd rhaglen waith yn rhestru'r camau canlynol a ddylid eu cymryd:

- i) Sefydlu corff dielw; sefydlu grŵp llywio, cadarnhau briff dylunio, trafod prydles; trefniadau rhedeg
- ii) Dylunio'r Cynllun
- iii) Gwneud gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno cais am ganiatâd
- iv) Gweithredu tendr
- v) Dechrau gwaith ar y safle.

Esboniwyd ymhellach mai'r Cyngor fyddai'n arwain ar y gwaith ond byddai gan ystod o gyrrff ac asiantaethau fewnbwn pwysig yn natblygiad y cynllun.

Cefnogwyd y bwriad a'r gwaith a wnaed hyd yma gan yr aelodau, ond mynegwyd pryder ynglŷn â'r trafferthion a allasai godi parthed ag ariannu'r cynllun.

Cydnabyddir nad yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ymrwymo adnoddau sylweddol i'r cynllun. Oherwydd hyn bydd angen targedu targedau ffynonellau ariannol.#

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.**

### **Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli**

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ar faterion ar gais Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli.

Rhoddyd sylw arbennig i'r 'Côd Diogelwch Morol Porthladdoedd' gyda chynrychiolydd y Gymdeithas yn tanlinellu'r angen i fod yn ymwybodol o gynnwys y Côd Diogelwch.

Pwysleisiodd y swyddog fod rhaid glynu at yr ystod eang o ddeddfau a rheolau a bod gweithlu'r Uned yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb a bod Tŷ'r Drindod yn fodlon gyda'r sefyllfa.

### **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cadarnhawyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn am 18.00 ar 23 Mawrth, 2010.

Dechreuodd y cyfarfod am 6pm a daeth i ben am 8:45pm

**CADEIRYDD**